OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 1418 (Cy. 266)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Rhagfyr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *3 Ionawr 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 3 Ionawr 2019.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 3 Ionawr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y ffordd gyswllt" ("*the link road*") yw'r darn o'r ffordd gyswllt sy'n cysylltu'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain i'r de-orllewin o drosbont Travellers' Rest wrth Gyffordd Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun yr A40 wrth Gyffordd Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r ffordd gyswllt a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Rhagfyr 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

**1**. Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o bwynt wrth eu cyffyrdd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 hyd at bwynt wrth y gyffordd ag Old Road.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

**2.** Y darn o'r ffordd gyswllt sy'n ymestyn o ynys hollti ymuno/ymadael yr A40 tua'r dwyrain hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin.